



Llwybr Gofal Integredig Cymru Gyfan ar gyfer Trallwysio Platennau dan arweiniad Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd (HCP).

*Mae hon yn ddogfen ganllaw a ddatblygwyd gan Grŵp
Goruchwylio Cenedlaethol Iechyd Gwaed (BHNOG) ac a
gymeradwywyd gan Gynrychiolaeth Haematolegwyr
Ymgynghorol yng Nghymru.*

1. Cyflwyniad

Mae'r llwybr hwn yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (HCPs) i reoli cleifion Haematoleg i gael cymorth trallwysio platennau yn unol â chanllawiau cenedlaethol¹. At ddibenion y llwybr hwn mae'r HCP yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, niysys, cynorthwywyr meddygol, meddygon iau. Dylai HCPs sy'n dilyn y llwybr hwn fod yn gyfarwydd â pholisi trallwysio'r bwrdd iechyd a rhaid iddynt gael eu hyfforddi ac asesu eu cymhwysedd i roi gwaed a chyfansoddion gwaed.

2. Meini Prawf ar gyfer Dewis Cleifion

Dylid cyfeirio cleifion â thrombocytopenia, e.e. o ganlyniad i syndrom myelodysplastig, anemia aplastig neu ar ôl cemotherapi, y gallai fod angen cymorth trallwysio platennau arnynt at yr HCP sy'n goruchwyllo'r llwybr yn yr ardal glinigol ddynodedig.

NID yw thrombocytopenia sefydlog cronig yn absenoldeb symptomau gwaedu sylweddol neu ffactorau risg eraill yn arwydd o drallwysiad platennau.

Y meddyg atgyfeirio sy'n gyfrifol am gydsynio i'r claf gael trallwysiad hirdymor.

2.1. RHAID i'r atgyfeiriad gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

2.1.1. Diagnosis ac achos thrombocytopenia

2.1.2. Cadarnhad o gydsyniad ar gyfer trallwysiad dros y cyfnod o thrombocytopenia

2.1.3. Amllder profion cyfrif gwaed llawn (FBC)

2.1.4. Trothwy platennau ar gyfer trallwysiad proffylactig ar gyfer thrombocytopenia gwrthdroadwy tymor byr (fel arfer yn is na $10 \times 10^9/L$)

2.1.5. Dyddiad y trallwysiad diwethaf

2.1.6. Gofynion arbennig e.e. Sytomegalofirws (CMV) IgG negatiff, Antigen Lewcosyt Dynol (HLA) wedi'i baru neu arbyledredig.

2.1.7. Trefniadau adolygiad meddygol o'r claf

3. Cyfrifoldeb HCP

3.1 Sicrhau bod y cleifion a atgyfeiriwyd yn bodloni'r meini prawf uchod. Rhaid hysbysu'r meddyg atgyfeirio ar unwaith os na ellir derbyn y claf ar y llwybr

3.2 Rhaid llenwi taflen wybodaeth (Atodiad 1) neu ddogfen gyfatebol electronig ar gyfer pob claf a'i storio'n gorfforol neu'n electronig gyda chopi hefyd yn nodiadau'r claf.

- 3.3 Trefnu cyfrif gwaed llawn (FBC) a/neu samplau grŵp a sgrinio i'w cymryd ar yr adegau cywir, gall hyn gael ei bennu gan y gofyniad trallwysiad celloedd coch mewn cleifion â thrombositopenia sefydlog sy'n cael trallwysiad ailadroddus. Rhaid i samplau gael eu cymryd gan unigolyn sydd wedi'i hyfforddi, ac wedi'i asesu o ran cymhwysedd ar gyfer samplu cyn trallwysiad².
- 3.4 Adolygu gwaed mewn modd amserol a phenderfynu ar gamau gweithredu gan ddefnyddio adnoddau megis Algorithm Platennau³ Gwasanaeth Gwaed Cymru (WBS) sy'n cynnwys meini prawf gwaedu Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), neu Ap Cyfansoddion Gwaed y Pwyllgor Trallwysio Gwaed Cenedlaethol (NBTC Lloegr)⁴
- 3.4.1 Mewn cleifion sy'n cael cymorth platennau proffylactig h.y. gydag achos gwrthdroadwy ar gyfer thrombositopenia, os yw cyfrif platennau'r claf uwchlaw'r trothwy ar gyfer trallwysiad, dylid hysbysu'r claf nad oes angen trallwysiad, a threfnu prawf gwaed pellach.
- 3.4.2 Os yw cyfrif platennau'r claf yn is na'r trothwy, yna bydd yr HCP yn cysylltu â'r claf i drefnu i'r claf fynychu trallwysiad platennau*.
- 3.4.3 Ar gyfer cleifion â thrombositopenia sefydlog, dylid asesu symptomau gwaedu ar adeg y prawf gwaed a'r penderfyniad i drallwysio yn seiliedig ar feini prawf gwaedu WHO³. NID yw gwaedu Gradd 1 yn arwyddion ar gyfer trallwysiaidau platennau.
- 3.5 Gwneud cais am blatennau ar gyfer y dyddiad trallwysio a drefnwyd gan sicrhau bod unrhyw ofynion arbennig wedi'u nodi h.y. CMV IgG negatif, HLA wedi'i baru (Cyswllt ar gyfer canllaw WBS ar gyfer HLA yn gofyn os cyfeirir ato isod⁵) neu arbelydredig*. Er bod yr holl blatennau a gynhyrchir gan WBS yn cael eu harbelydru, nid yw hyn yn safonol ar gyfer cyfansoddion o wasanaethau gwaed eraill yn y DU.
- 3.6 Sicrhau bod Cofnod Trallwysio Cymru Gyfan⁶ yn cael ei gwblhau gan feddyg neu ymarferydd Awdurdodi Trallwysio Gwaed Annibynnol (IABT) sydd wedi'i hyfforddi'n briodol cyn i'r trallwysiad ddechrau.

** Mae'n bwysig cydnabod, yn wahanol i gyfansoddion celloedd coch, NAD YW llawer o labordai trallwysio ysbytai yn dal platennau stoc a bod y rhan fwyaf o geisiadau platennau'n cael eu harchebu ar gais gan Wasanaeth Gwaed Cymru ar sail claf a enwir. Mae cyswllt agos â'r adran trallwysio lleol i wneud y defnydd gorau o'r amserlen gyflenwi arferol yn hanfodol a lliniaru'r costau ychwanegol a'r pwysau logistaidd sy'n gysylltiedig â cheisiadau ad hoc. Mae gan gyfansoddion platennau oes silff fer a gall rhagatal gofynion yn seiliedig ar ganlyniadau amcangyfrifedig arwain at wastraff platennau, yn enwedig mewn ysbytai llai lle mae'r defnydd o blatennau'n isel.*

Cyfeiriadau

1. <https://bsh.org.uk/guidelines/guidelines/use-of-platelet-transfusions/>
2. <https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/all-wales-transfusion-competencies/>
3. <https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/wp-content/bht-uploads/sites/4/2020/04/Plt-algorithm-Final.pdf>
4. <https://hospital.blood.co.uk/patient-services/patient-blood-management/>
5. <https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/wp-content/bht-uploads/sites/4/2019/01/All-Wales-Guideline-for-HLA-and-HPA-Selected-Platelets-2019.pdf>
6. <https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/wp-content/bht-uploads/sites/4/2019/02/awtr.pdf>

Atodiad 1 – Taflen Wybodaeth Llwybr Gofal Cleifion

Cyfeirydd y claf:	Dyddiad cyfeirio: Rhif ffôn cyswllt:
Diagnosis: Thrombositopenia: <input type="checkbox"/> Gwrthdroadwy <input type="checkbox"/> Sefydlog cronig <input type="checkbox"/>	Ymgynghorydd Cyfeirio:

	Dyddiad:	Dyddiad:	Dyddiad:
Cydsyniwyd ar gyfer trallwysiad hirdymor:			
Lleoliad ar gyfer profion gwaed:			
Lleoliad ar gyfer trallwysiad:			
Amllder FBC:			
Trothwy platennau ar gyfer trallwysiad ($\times 10^9/L$):			
Gofynion gwaed arbennig:			
Adolygiad meddygol a drefnwyd:			
Trallwysiad platennau a roddwyd:			